

Y Grawys

Darllen: Mathew 4:1–4

Yn ystod tymor y Grawys byddwn yn cofio am Iesu yn yr anialwch.

Cyn mynd ati i drafod yr adran hon mae'n werth rhoi sylw i'r gair 'temptio'. Y gair Groeg yw *peirazo*. Pan ddefnyddiwn ni'r gair 'temptio' yn Gymraeg, mae rhyw arlliw drwg iddo, sef cymell rhywun i wneud drwg neu berswadio rhywun i gerdded y llwybr anghywir. Ond mae'r gair Groeg yn cynnwys elfen wahanol, sef 'profi' rhywun. Yn yr hanes am Abraham ar fin aberthu ei fab Isaac yn yr Hen Destament, dywed y Cyfieithiad Awdurdodedig Saesneg fod Duw wedi 'temptio' Abraham, ond dywed y Beibl Cymraeg Newydd 'rhoddodd Duw brawf ar Abraham' (Genesis 22:1). Go brin y byddai Duw wedi temptio, yn yr ystyr o arwain Abraham i wneud drwg, fel yr awgryma'r fersiwn Saesneg. Yr hyn a wna Duw yw profi teyrngarwch a ffyddlondeb Abraham. Felly, yn hanes Iesu yn yr anialwch yr hyn a geir yw Duw yn profi Iesu, sydd bellach ar gychwyn ei weinidogaeth ac yn ystyried pa lwybr i'w gymryd. Pa ffordd – ffordd Duw neu ffordd y byd? Nid mynd i'r anialwch o'i fodd a wnaeth Iesu, ond cael ei arwain gan yr Ysbryd. Ac yn yr anialwch y mae'r profwr a ddaeth yn ôl droeon yn ystod ei weinidogaeth. Profwyd Iesu i'r eithaf yng ngardd Gethsemane ond Iesu a orchfygodd, 'Ond gwneler dy ewyllys di, nid fy ewyllys i' (Luc 22:42).

O'i amgylch yn yr anialwch roedd cerrig, neu ddarnau bychain o greigiau carreg galch, oedd yn edrych yn hynod o debyg i dorthau bychain. Tybed oedd Iesu am ddefnyddio'i rym er ei fwyn ei hun, yn hunanol a hunangar? Ond roedd ochr arall i gwestiwn y profwr. Pa ddull oedd Iesu am ei ddefnyddio i ennill pobl i Dduw? Un ffordd bosibl fyddai rhoi bara iddynt; rhoi pethau materol iddynt. Onid oedd hanes y genedl o blaid gwneud hynny o gofio bod Duw wedi rhoi manna i'r bobl yn yr anialwch? Ac o gofio mai gweledigaeth fawr y proffwyd Eiseia oedd, 'Ni newynant ac ni sychedant' (Eiseia 49:10), oni fyddai Iesu mewn olyniaeth fawreddog pe byddai'n gwneud hyn? Ond gwrthod wnaeth Iesu, ar ddau gownt. Yn gyntaf, ceisio swcro pobl trwy roi bwyd yn eu boliau fyddai peth felly.

Mae Iesu yn galw pobl i fywyd o roi yn hytrach na bywyd o gael. Nid llwgrwobrwyo pobl oedd diben ei weinidogaeth. Yn ail, cael gwared â'r symptomau heb ddelio â'r afiechyd fyddai hynny. Y cwestiwn holl bwysig i'w godi oedd, pam fod dynion yn newynu? Ai oherwydd eu ffolineb, eu diofalwch a'u hesgeulustra? Gofynnwn yr un cwestiwn yn ein dyddiau ni? Beth sy'n gyfrifol heddiw fod cymaint yn ein byd yn newynu a sychedu? Yn un peth, ein difaterwch ni. Gwelwn ar y sgrin luniau o blant a phobl mewn gwahanol rannau o'r byd yn wynebu argyfyngau: y cynydau wedi methu neu arweinwyr y gwledydd wedi anghofio amdanynt. A cheir ymgyrch fawr i gael bwyd a diod i'r trigolion. Ond ymhen ysbaid mae'r cyfan wedi'i anghofio, a does dim llawer o sôn amdanynt. Yn hytrach na'n bod yn meddwl amdanynt ac yn ceisio eu helpu'n gyson, maent wedi mynd yn angof. Beth felly yw arwyddocâd yr ymryson cyntaf hwn â'r profwr? Yr unig ffordd i gael gwared â'r 'newyn' hwn ydi dileu yr achosion, ac mae'r rhain i gyd yn deillio o galon dyn. Dyfyniad o Lyfr Deuteronomium 8:3 yw ateb Iesu i'r profwr, 'Nid ar fara yn unig y bydd rhywun fyw, ond ar bob gair sy'n dod allan o enau Duw'. Trawsffurfio pobl ydi'r cam pwysicaf.

Myfyrdod pellach:

Ydych chi'n credu y byddai Duw'n temtio rhywun i wneud drwg?

Ai trawsffurfio pobl oedd nod a phwrpas gweinidogaeth Iesu?

Y Grawys

Darllen: Mathew 4: 5–7

Edrychwn yn awr ar yr ail brofiad a gafodd Iesu yn yr anialwch. Y tro hwn, mae'r profwr yn newid ei ddull. Yn ôl yr hanes yn Efengyl Luc, dyma'r trydydd tro i Iesu gael ei brofi; ond mae Mathew yn ei roi yn ail yn ei efengyl ef. Wrth i Iesu hel meddyliau, mae'r profwr yn mynd ag ef a'i osod ar dŵr uchaf y deml gan ddweud wrtho, 'Os mab Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr; oherwydd y mae'n ysgrifenedig: "Rhydd orchymyn i'w angylion amdanat; byddant yn dy godi ar eu dwylo rhag iti daro dy droed yn erbyn carreg'" (Mathew 4: 6).

Mae'n rhaid troi i dudalennau'r Hen Destament i ddechrau. Onid oedd y proffwyd Malachi wedi rhagweld, 'Wele fi'n anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o'm blaen; ac yn sydyn fe ddaw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i mewn i'w deml' (Malachi 3: 1)? Ac oni chawn addewid yn Llyfr y Salmau, 'Oherwydd rhydd orchymyn i'w angylion i'th gadw yn dy holl ffyrdd; byddant yn dy godi ar eu dwylo rhag iti daro dy droed yn erbyn carreg' (Salm 91:11–12)? Pam na ddylai Iesu, felly, ei fwrw ei hun i lawr? Adeiladwyd y deml yn Jerwsalem ar gopa mynydd Seion, oedd wedi ei lefelu'n lwyfandir, ac ar y llwyfan hwn y codwyd adeiladau'r deml. Ar un gongl, roedd Porth Solomon a'r Porth Brenhinol yn cydgyfarfod; ac yno'r oedd disgynfa serth i lawr i ddyffryn Cedron. Ar ben to'r deml, pan fyddai llewyrch o oleuni blaen y wawr yn ddyddiol yn torri dros fryniau Hebron byddai offeiriad yn sefyll i ganu ei gorn. Arwydd oedd hwn fod awr aberth y bore wedi torri. Gyda'r cefndir hwn byddai llam Iesu o binacl y deml wedi bod yn olygfa i ryfeddu ati. Pam y gwrthododd Iesu ag ymateb i gais y profwr?

Un rheswm, mae'n debyg, yw fod unrhyw un sydd am ddenu pobl â gweithredoedd o ryfeddod a chyffro yn gorfod gwneud rhyfeddodau cyson bob gafael. Cafodd plentyn wahoddiad i barti pen-blwydd ei ffrind gorau ac fe aeth yno'n ddigon anfoddog. Pan ddaeth adref gyda'r nos, a'i rieni'n holi am hynt a helynt y dydd, ei ateb oedd, 'Roedd y parti ei hun yn iawn

ond roeddwn i wedi gweld y consuriwr o'r blaen, a'r un hen driciau oedd ganddo. Doedd ganddo ddim byd newydd, cyffrous.' Mae'n debyg fod rhyfeddodau consuriwr bellach yn weithredoedd cyffredin, bob dydd. Roedd y cyffro wedi mynd ohonynt.

Yng ngwaith y deyrnas, mae gofyn i ni gymryd risg a bod yn fwy mentrus, ond nid er mwyn ein dangos ein hunain a dweud pa mor eofn a beiddgar ydyn ni. Mae'r ffydd sy'n ddibynnol ar arwyddion a rhyfeddodau yn fyrhoedlog a di-werth. Efallai mai amheuaeth sydd yma a'n bod yn chwilio am brawf, a hynny yn y lleoedd anghywir. Gwrthododd Iesu wneud sioe ohono'i hun er mwyn denu dilynwyr. 'Paid â gosod yr Arglwydd dy Dduw ar ei brawf' oedd ateb Iesu i'r profwr gan ddyfynnu o lyfr Deuteronomium (6:12). Yr hyn y mae Iesu'n ei ddweud yw – peidiwch â cheisio gweld pa mor bell y gellwch fynd efo Duw; does dim gwerth mewn rhoi eich hunain mewn sefyllfaoedd bygythiol ac yna gofyn i Dduw eich arbed a'ch cynnal.

Myfyrdod pellach:

Oes yna berygl i ni geisio creu cyffro a rhyfeddod yn ein haddoliad?

Beth am sylw un o'r dorf, 'Os Mab Duw wyt ti ... disgyn oddi ar y groes'? A gafodd Iesu ei brofi bryd hynny?

Y Grawys

Darllen: Mathew 4: 8–11

Trown at y trydydd darlun y mae Iesu'n ei droi a'i drosi yn ei ben. Yn ei weledigaeth mae'n cael darlun o'r byd – y byd y daeth i'w achub. Meddai'r llais wrtho, 'Y rhain i gyd a roddaf i ti, os syrthi i lawr a'm haddoli i' (Mathew 4: 9). Trown eto at Lyfr y Salmau, ac onid oes adlais o'r geiriau hyn yn yr ail Salm, 'Dywedodd wrthyf, "Fy mab wyt ti, myfi a'th genhedlodd di heddiw; gofyn, a rhoddaf iti'r cenhedloedd yn etifeddiaeth, ac eithafoedd daear yn eiddo iti'" (Salm 2:7–8).

Beth mae'r profwr yn ei ddweud wrtho'r tro hwn? Un gair yn unig – cyfaddawdu! Beth am iti ddod i delerau â mi? Paid ag anelu'n rhy uchel! Os gwnei di osod d'egwyddorion yn rhy uchel bydd pobl yn dy wrthod, a dyna dy genhadaeth ar ben! Plyga dipyn ar d'egwyddorion, a bydd pobl yn siŵr o'th ddilyn! Tyrd i delerau â'r byd! Beth am i ti geisio newid y byd trwy ddod yn un â'r byd? Unwaith eto daeth ateb Iesu gyda dyfyniad o'r Ysgrythur, o Deuteronomium 6:13 y tro hwn, 'Yr Arglwydd dy Dduw a addoli ac ef yn unig a wasanaethi' (Mathew 6:10). Mae Iesu'n dangos yn berffaith glir na ellir dileu drygioni trwy gyfaddawdu â drygioni. Nid nod Cristnogaeth yw plygu i lefel y byd ond yn hytrach codi lefel y byd i wastad Cristnogaeth.

Beth sy'n dod yn amlwg i ni ym mhrofiadau Iesu yn yr anialwch? Pa adnoddau oedd ganddo yn ei frwydr yn erbyn y profwr? Bob tro y mae'r profwr yn meddwl ei fod wedi cael y gorau arno mae Iesu'n dyfynnu o'r Ysgrythurau. Mae wedi'i fagu ar faeth y Gair, a dyma sy'n ei gynnal yn y dydd blin. Cafodd ei nerthu a'i arwain gan wirionedd y Gair. Ond mae'n rhaid cofio y gallwn ddefnyddio'r Gair i bob pwrpas dan haul a hyrddio adnodau at ein gilydd i brofi neu wrthbrofi hyn ac arall. Ond mae'n rhaid cofio un sylw gan Mathew ar ddechrau'r bennod, 'Yna arweiniwyd Iesu i'r anialwch gan yr Ysbryd, i gael ei demtio gan y diafol' (4: 1). Yr Ysbryd hwn oedd yn ei gynnal a'r Ysbryd hwn oedd yn ei alluogi i amgyffred pethau Duw, fel y dywed Paul wrth aelodau'r eglwys yng Nghorinth, 'Nid

yw'r rhai anianol yn derbyn pethau Ysbryd Duw, oherwydd ffolineb ydynt iddynt hwy, ac ni allant eu hamgyffred, gan mai mewn modd ysbrydol y maent yn cael eu barnu' (1 Corinthiaid 2:14). Sylweddolodd Iesu yn yr anialwch fod geiriau ei Feibl yn berthnasol i'w sefyllfa yng ngrym yr Ysbryd Glân. Yr Ysbryd hwn oedd yn ei oleuo a'i arwain.

Mae'n werth gosod profiadau'r anialwch yng nghyd-destun hanes cenedl Israel gan eu bod yn adlewyrchu'r profion y bu'n rhaid i Israel eu hwynebu. Rhoddwyd ffydd y genedl ar brawf – caniatawyd i Israel newynu er mwyn iddi ddysgu ufuddhau i Dduw, ond methu a wnaeth. Rhoddwyd teyrngarwch y genedl ar brawf – gan fynnu mai Duw yn unig a wasanaethai, ond methu a wnaeth. Rhoddwyd ffydd Israel yn Nuw ar brawf – ond dangosodd ei diffyg ffydd, a methu a wnaeth. Ond lle methodd y genedl, llwyddodd y Mab – Mab Duw – i wynebu'r profion a gweithredu'r ufudd-dod, y teyrngarwch a'r ffydd oedd mor ddiffygiol yn hanes y genedl. Gadawodd Iesu'r anialwch yn goncwerwr.

Myfyrdod pellach:

Ydych chi wedi cael eich profi?

Beth yn eich barn chi oedd cyfrinach dewrder Iesu yn yr anialwch?